



BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

CYSUR & CWMPAS

THE MID & WEST WALES SAFEGUARDING BOARD

CYNLLUN BLYNYDDOL | ANNUAL PLAN

2019-20



RHAGARWEINIAD

Mae CYSUR: Bwrdd Diogelu Plant Canolbarth a Gorllewin Cymru a CWMPAS: Bwrdd Diogelu Oedolion Canolbarth a Gorllewin Cymru yn falch o gyhoeddi a chyflwyno eu trydydd cydgyllun strategol blynyddol ar gyfer 2019-20. Mae'r cydamcanion strategol a'r meysydd blaenoriaeth a nodwyd, sy'n cyd-fynd yn llwyr â'i gilydd, yn adlewyrchu'r cynnydd parhaus a wnaed gan y bwrdd o ran mabwysiadu dull diogelu pobl o bob oedran yng nghyswllt plant ac oedolion sy'n wynebu risg yng nghanolbarth a gorllewin Cymru.

Bydd y meysydd y nodwyd bod angen eu gwella'n barhaus yn fodd i'r bwrdd a'i aelodau gyflawni eu cyfrifoldebau statudol a amlinellwyd yn Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn y rhanbarth a'u hatal rhag dioddef camdriniaeth ac esgeulustod, a mathau eraill o niwed.

Mae heriau sylweddol ynghlwm wrth wasanaethu dinasyddion a chymunedau amrywiol rhanbarth canolbarth a gorllewin Cymru sy'n cwmpasu ardal ddaearyddol fawr, sef Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys. Fodd bynnag, mae'r bwrdd a'i aelodau'n parhau i ymfalchïo yn yr ethos pendant o gydweithio a gwaith partneriaeth a sefydlwyd ar lefel y Bwrdd Gweithredol hŷn a'r is-grwpiau. Edrychwn ymlaen at y flwyddyn sydd o'n blaenau, ac at barhau i adeiladu ar y sylfeini cryf a osodwyd yn y tair blynedd flaenorol er mwyn gwireddu ein hamcanion a'n dyhead i gyflawni rhagoriaeth mewn gwaith diogelu, ymarfer proffesiynol ac yn y gwasanaethau a ddarparwn i'n cymunedau.

Mae amddiffyn plant ac oedolion a'u hatal rhag dioddef niwed, hyrwyddo lles pobl canolbarth a gorllewin Cymru a'u galluogi i gyflawni gwell canlyniadau yn parhau i fod yn rhan ganolog o waith y bwrdd.



Jake Morgan (Cadeirydd CYSUR)

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol
Cyngor Sir Caerfyrddin

Jonathan Griffiths (Cadeirydd CWMPAS)


Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol
Cyngor Sir Penfro



EIN GWELEDIGAETH

Gweledigaeth Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yw bod pawb yn y rhanbarth yn byw heb drais, camdriniaeth, esgeulustod a chamfantais a bod eu hawliau wedi'u hamddiffyn. Mae sensitifrwydd a pharch pendant at wahaniaethau o ran hil, ethnigrwydd, diwylliant, gallu, ffydd a chyfeiriadedd rhywiol wrth wraidd pob gwaith diogelu. Mae ymgysylltu â'r holl randdeiliaid, gan gynnwys plant, pobl ifanc, oedolion sy'n wynebu risg, eu teuluoedd, gofalwyr, darparwyr gwasanaethau a'r gymuned ehangach, ac ymateb i'w hanghenion, yn hanfodol o ran hyrwyddo gweledigaeth y bwrdd.

Aelodau Bwrdd Gweithredol Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru

 CWMPAS (Bwrdd Diogelu Oedolion)	 CYSUR (Bwrdd Diogelu Plant)
Jonathan Griffiths (Cadeirydd) Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol, Cyngor Sir Penfro	Jake Morgan (Cadeirydd) Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Caerfyrddin
Anthony Griffiths (Is-gadeirydd) Ditectif Uwch-arolygydd, Heddlu Dyfed-Powys	Siân Passey (Is-gadeirydd) Cyfarwyddwr Cynorthwyol Sicrwydd Nyrsio a Nyrsio Corfforaethol (Diogelu), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Jake Morgan Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol, Cyngor Sir Caerfyrddin	Jonathan Griffiths Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol, Cyngor Sir Penfro
Alison Bulman Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Powys	Alison Bulman Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Powys
Siân Passey Cyfarwyddwr Cynorthwyol Sicrwydd Nyrsio a Nyrsio Corfforaethol (Diogelu), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Anthony Griffiths Ditectif Uwch-arolygydd, Heddlu Dyfed-Powys
Avril Bracey Pennaeth Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Diogelu Oedolion, Cyngor Sir Caerfyrddin	Stefan Smith Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Caerfyrddin
Carys James Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol a Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Gofal Cymdeithasol Oedolion, Cyngor Sir Ceredigion	Elfed Hopkins Swyddog Arweiniol Corfforaethol - Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Cyngor Sir Ceredigion
Jason Bennett Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Penfro	Anthony Maynard Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Penfro
Michael Gray Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, Cyngor Sir Powys	Jan Coles Pennaeth Gwasanaethau Plant, Cyngor Sir Powys
Christine Harley Prif Weithredwr Cynorthwyol, Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol	Christine Harley Prif Weithredwr Cynorthwyol, Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
Rhian Lovell Prif Weithredwr Cynorthwyol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru	Rhian Lovell Prif Weithredwr Cynorthwyol, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
Mandy Rayani Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Mandy Rayani Cyfarwyddwr Nyrsio, Ansawdd a Phrofiad y Claf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Rhiannon Jones Cyfarwyddwr Nyrsio, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Rhiannon Jones Cyfarwyddwr Nyrsio, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Mandy Nichols-Davies Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs Benodol), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Mandy Nichols-Davies Pennaeth Diogelu Oedolion a Phlant (Nyrs Benodol), Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
Sonia Mason Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu (Nyrs Benodol), Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	Sonia Mason Cyfarwyddwr Cynorthwyol Diogelu (Nyrs Benodol), Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
Karen Toohey Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru), Iechyd Cyhoeddus Cymru	Karen Toohey Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru), Iechyd Cyhoeddus Cymru
Daphne Rose Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru), Iechyd Cyhoeddus Cymru	Daphne Rose Nyrs Ddynodedig, Tîm Diogelu Cenedlaethol (GIG Cymru), Iechyd Cyhoeddus Cymru
Nikki Harvey Pennaeth Diogelu, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru	Nikki Harvey Pennaeth Diogelu, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Hazel Lloyd-Lubran Cynrychiolydd Rhanbarthol y Trydydd Sector, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)	Hazel Lloyd-Lubran Cynrychiolydd Rhanbarthol y Trydydd Sector, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)
Chris Harrison Cynrychiolydd rhanbarthol y Penaethiaid Comisiynu	Steve Davis Cynrychiolydd rhanbarthol y Rheolwyr Cyfiawnder Ieuencid
	Kate Evan-Hughes Cynrychiolydd rhanbarthol y Cyfarwyddwyr Addysg
	Dr Ingrid Prosser Meddyg Penodol, Amddiffyn Plant, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys
	Dr Damitha Ratasinghe Meddyg Penodol, Amddiffyn Plant, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Uned Fusnes Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru
Julie Breckon Rheolwr y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol
Tessa Fudge Cydlynnydd Busnes

Y CANLYNIADAU STRATEGOL Y NODWYD EU BOD YN FLAENORIAETH AR GYFER 2018-19

1. **Gwell Ymgysylltu:** Dangos bod llais plant ac oedolion y mae gwaith y bwrdd yn effeithio arnynt yn ganolog i'n gwaith a bod barn plant, pobl ifanc, oedolion sy'n wynebu risg, eu teuluoedd ac ymarferwyr rheng flaen yn sail i arferion ac yn rhoi ffurf ar wasanaethau.
2. **Dysgu Systematig:** Datblygu a gwella ein ffordd o weithio yn barhaus fel bod canlyniadau plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg yn gwella.
3. **Mwy o Wybodaeth a Sgiliau:** Bod yn sicr ein bod yn adnabod y bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf yn ein rhanbarth ac yn eu diogelu'n effeithiol.
4. **Arweinyddiaeth Gref, Dylanwad a Her:** Darparu arweinyddiaeth strategol bendant a her effeithiol ar draws y bartneriaeth a dylanwadu ar yr agenda genedlaethol mewn perthynas â blaenoriaethau diogelu canolbarth a gorllewin Cymru.

Mae ein cynllun busnes isod yn rhestru sut y bwriadwn gyflawni'r canlyniadau hyn ac yn rhoi crynodeb o'r gwelliannau y bwriadwn eu rhoi ar waith er mwyn cyflawni ein hamcanion.

Cynllun Busnes Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru 2019-20

1 Gwell Ymgysylltu: Dangos bod llais plant ac oedolion y mae gwaith y bwrdd yn effeithio arnynt yn ganolog i'n gwaith a bod barn plant, pobl ifanc, oedolion sy'n wynebu risg, eu teuluoedd ac ymarferwyr rheng flaen yn sail i arferion ac yn rhoi ffurf ar wasanaethau

Maes Blaenoriaeth	Beth rydym am ei gyflawni?	Beth fydd y dangosyddion canlyniadau?
1.1 Ymgysylltu ag Oedolion sy'n Wynebu Risg.	Gwell cyfathrebu ac ymgysylltu ag oedolion sy'n wynebu risg, ar lefel ymarfer ac ar lefel strategol, mewn gwaith diogelu oedolion.	Sefydlir Fforymau Rhanbarthol a datblygir prosesau a fydd yn cofnodi llais oedolion sy'n wynebu risg.
		Bydd gennym well dealltwriaeth o brofiadau oedolion sy'n wynebu risg mewn gwaith diogelu.
		Bydd llais oedolion sy'n wynebu risg yn llywio ymarfer proffesiynol ac yn dylanwadu'n uniongyrchol arno ac ar waith y bwrdd.
1.2 Grŵp Iau CADW a Byrddau Iau Diogelu Plant Lleol.	Bod aelodau CADW yn dod i gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol yn rheolaidd ac yn gyson.	Mae'r berthynas rhwng y Bwrdd Gweithredol hŷn a grŵp iau CADW yn gryfach.
	Datblygu'r llinellau cyfathrebu presennol ymhellach rhwng grŵp rhanbarthol CADW a'r byrddau iau lleol a sicrhau bod ffrydiau gwaith yn cyd-fynd â'i gilydd.	Bydd llais plant a phobl ifanc yn dylanwadu'n uniongyrchol ar waith y bwrdd.
	Adolygu cynllun gwaith cyfredol CADW er mwyn sicrhau'i fod yn adlewyrchu blaenoriaethau'r bwrdd hŷn.	
1.3 Grwpiau Cymunedol, Clybiau Chwaraeon a Hamdden.	Datblygu pecyn cymorth diogelu ar gyfer grwpiau cymunedol a chlybiau chwaraeon a hamdden cyswllt a digyswllt, a fydd yn cynnwys cyfrifoldebau staff cyflogedig a gwirfoddolwyr o ran diogelu.	Bydd plant ac oedolion sy'n cyrchu'r grwpiau a'r gweithgareddau hyn yn fwy diogel o ganlyniad i godi ymwybyddiaeth ymhlith trefnwyr clybiau a grwpiau, rhieni a gofawyr.
1.4 Cydweithio â Phartneriaethau Rhanbarthol.	Cyflawnir gwaith ar y cyd â Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru i gefnogi gwaith parhaus o ran:	Sefydlir gwaith cydweithredol ystyrlon ac effeithiol o ran costau ac amser â phartneriaethau rhanbarthol eraill.
		Ymestynnir a chryfheir y rhaglen ymgysylltu bresennol â defnyddwyr gwasanaethau sy'n oedolion sy'n wynebu risg.

	<ul style="list-style-type: none"> • cyfranogiad ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau. • datblygu'r gweithlu. 	Cryfheir gwaith cynllunio'r gweithlu, recriwtio a chadw ar draws y rhannau o'r gweithlu gofal cymdeithasol lle y mae gwendidau.
1.5 Gwefan y Bwrdd.	Gwneud gwefan y bwrdd rhanbarthol yn fwy hygyrch i'r cyhoedd ac i weithwyr proffesiynol trwy wella'i ffurf a'i dyluniad.	Mae gan aelodau o'r cyhoedd, grwpiau cymunedol ac ymarferwyr rheng flaen well gwybodaeth am y bwrdd, ei waith a'i swyddogaethau.

2 Dysgu Systematig: Datblygu a gwella ein ffordd o weithio yn barhaus fel bod canlyniadau plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n wynebu risg yn gwella

Maes Blaenoriaeth	Beth rydym am ei gyflawni?	Beth fydd y dangosyddion canlyniadau?
2.1 Fforymau Proffesiynol Amlasiantaethol.	Sicrhau bod pob Grŵp Gweithredol Lleol yn nodi achosion a chyfleoedd i gynnal dau fforwm proffesiynol amlasiantaeth yn ystod y flwyddyn.	Cefnogir datblygiad proffesiynol gan fwy o sgiliau a gwybodaeth a ddarperir trwy hyfforddiant a thrwy ymgysylltu â'r broses fforymau proffesiynol amlasiantaethol.
	Sicrhau bod yr hyfforddiant a'r sgiliau angenrheidiol gan ymarferwyr i wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> • rheoli a goruchwyllo darparu fforymau proffesiynol amlasiantaethol. • hwyluso digwyddiadau dysgu. 	Gwell ymatebion i blant ac oedolion sy'n wynebu risg, ar lefel gwasanaeth ac ar lefel broffesiynol, trwy gynyddu ymwybyddiaeth o'r gwersi a ddysgwyd, gan arwain at wella arferion diogelu.
	Sicrhau bod y gwersi a gaiff eu dysgu a'u nodi yn y fforymau hyn yn cael eu lledaenu a'u rhannu ar draws y rhanbarth.	
2.2 Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion.	Cynyddu ymwybyddiaeth o'r meini prawf a'r broses atgyfeirio ar gyfer cynnal Adolygiadau Ymarfer Oedolion.	Bydd nifer yr atgyfeiriadau a dderbynnir i'w hystyried gan yr Is-grŵp Adolygiadau Ymarfer Oedolion Rhanbarthol yn cynyddu.
	Gwella'r prosesau ar gyfer lledaenu'r gwersi a ddysgwyd yn sgil adolygiadau ymarfer oedolion ac adolygiadau ymarfer plant rhanbarthol a chenedlaethol a'u rhannu ag ymarferwyr rheng flaen.	Mae plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn fwy diogel yn sgil gwell gwybodaeth broffesiynol a gwell arferion diogelu.
	Datblygu pecyn cymorth rhanbarthol i gefnogi darparu a chynnal Adolygiadau Ymarfer Plant ac Oedolion.	Caiff Adolygwyr Annibynnol a chadeiryddion paneli well cymorth gyda'u rolau, gan gryfhau a gwella ansawdd yr adolygiadau a gynhelir.
2.3 Hyfforddiant Diogelu Amlasiantaeth.	Rhoi camau gweithredu allweddol Cynllun Cyflawni Strategaeth Dair Blynedd Canolbarth a Gorllewin Cymru ar waith er mwyn darparu hyfforddiant amlasiantaeth haen uwch arbenigol a phwrpasol.	Darperir hyfforddiant diogelu amlasiantaeth cyson ar draws y rhanbarth.
		Rhoddir sicrwydd i'r bwrdd ynghylch y math o hyfforddiant diogelu a ddarperir i ymarferwyr amlasiantaeth a'i ansawdd.

2.4 Trothwyon ar gyfer Plant ac Oedolion sy'n Wynebu Risg	Rhoi'r ddogfen ganllaw ranbarthol ynghylch trothwyon ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg yng nghanolbarth a gorllewin Cymru ar waith, a'i hymgorffori mewn arferion.	Bydd yr ymatebion proffesiynol i'r rheiny a all fod yn wynebu risg yn amserol, yn bendant ac yn gymesur â'r angen a'r risg a nodwyd.
	Gwell dealltwriaeth o'r trothwyon sy'n berthnasol i blant ac oedolion y nodwyd bod risg y byddant yn dioddef niwed sylweddol.	
2.5 Atgyfeiriadau Cam-drin Domestig ar gyfer Oedolion.	Rhoi model rhanbarthol cyson ar waith ar gyfer rheoli a phrosesu atgyfeiriadau cam-drin domestig ar gyfer oedolion.	Bydd ymatebion proffesiynol i ddiodefyr cam-drin domestig yn amserol, yn gymesur â'r risg a'r angen ac yn cyfeirio at adnoddau cymunedol pan fydd hynny'n briodol.
2.6 Atal Hunanladdiad.	Adolygu gwaith parhaus Strategaeth Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio Canolbarth a Gorllewin Cymru.	Bydd ymatebion proffesiynol i'r rheiny sy'n wynebu'r risg fwyaf yn gwella yn sgil datblygu mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth o'r dangosyddion risg.
	Sicrhau bod ymarferwyr rheng flaen yn fwy ymwybodol o'r ffactorau risg sy'n gysylltiedig â hunanladdiad a'u bod yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i rannu arferion da ar draws asiantaethau.	

3 Mwy o Wybodaeth a Sgiliau: Bod yn sicr ein bod yn adnabod y bobl sy'n wynebu'r risg fwyaf yn ein rhanbarth ac yn eu diogelu'n effeithiol

Maes Blaenoriaeth	Beth rydym am ei gyflawni?	Beth fydd y dangosyddion canlyniadau?
3.1 Datblygu'r Gweithlu, Recriwtio a Chadw	Gweithredu argymhellion yr archwiliad a âi at wraidd datblygu'r gweithlu a gynhaliwyd ar draws dimau gwasanaethau plant yr awdurdodau lleol mewn partneriaeth â Bwrdd Partneriaeth Gorllewin Cymru.	Bydd arferion recriwtio a chadw mewn gwasanaethau a thimau lle y ceir gwendidau yn gwella.
		Bydd lefelau swyddi gwag mewn ardaloedd/meysydd anodd recriwtio iddynt yn lleihau.
3.2 Cofrestr Risgiau.	Datblygu fframweithiau i alluogi'r Grwpiau Gweithredol Lleol i roi gwybod i'r Bwrdd Gweithredol am risgiau diogelu amlasiantaeth lefel uchel.	Bydd effeithlonrwydd a ffocws strategol y Bwrdd Gweithredol yn gwella. Sefydli'r model thematig cyson i alluogi'r Grwpiau Gweithredol Lleol i roi gwybod i'r Bwrdd Gweithredol am risgiau lefel uchel.
3.3 Strategaeth a Chynllun Hirdymor	Datblygu strategaeth a chynllun pum mlynedd ar gyfer y bwrdd.	Mae gan y bwrdd weledigaeth hirdymor glir gyda nodau clir a chanlyniadau mesuradwy.
3.4 Fframwaith Sicrhau Ansawdd ac Archwiliadau Rhanbarthol.	Gwell dealltwriaeth o ymarfer proffesiynol o ran <ul style="list-style-type: none"> • Doluriau gwasgu ataliadwy • Defnyddio eiriolaeth ar gyfer oedolion sy'n wynebu risg. 	Trwy gynyddu gwybodaeth, bydd nifer yr oedolion sy'n wynebu risg o ddatblygu doluriau gwasgu ataliadwy yn lleihau.
		Nodir cyfleoedd i wella'r gwasanaethau eiriolaeth a ddarperir i oedolion sy'n wynebu risg.
3.5 Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.	Rhoi'r strategaeth ranbarthol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar waith gan ganolbwyntio'n benodol ar y galluogwyr newid a nodwyd ar gyfer 2019/20; <ul style="list-style-type: none"> • Myfyrio ac adolygu • Data a thystiolaeth • Ymgynghori'n barhaus â goroeswyr 	Set o ddangosyddion rhanbarthol ar gyfer monitro a gwerthuso'r strategaeth a'i heffaith.
		Set ddata gyson ynghylch trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws y rhanbarth i gefnogi'r fframwaith perfformiad.
		Fframwaith rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â goroeswyr.
3.6 Contractau a Chomisiynu	Cwblhau a lansio proses ranbarthol ar gyfer rheoli pryderon sy'n dwysáu.	Sefydli'r model cyson ar gyfer cynorthwyo a monitro cartrefi gofal a chartrefi nyrsio ledled rhanbarth canolbarth a gorllewin Cymru.

<p>â Chartrefi Gofal a Chartrefi Nyrsio</p>	<p>Datblygu a darparu hyfforddiant diogelu pwrpasol ar gyfer rheolwyr cofrestredig mewn cartrefi gofal a chartrefi nyrsio. Gwell dealltwriaeth o'r trothwyon sy'n berthnasol i blant ac oedolion y nodir eu bod yn wynebu risg o gael niwed sylweddol.</p>	<p>Trwy gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau diogelu, bydd ansawdd y gofal a ddarperir i breswylwyr cartrefi gofal a chartrefi nyrsio yn gwella.</p>
<p>3.7 Rhannu Gwybodaeth.</p>	<p>Cynyddu a chodi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau gweithwyr proffesiynol a'u dyletswyddau i rannu gwybodaeth yn gymesur ac yn unol â'r gyfraith mewn gwaith diogelu.</p> <p>Cwblhau protocol amlasiantaethol rhanbarthol ar gyfer rhannu gwybodaeth a'i roi ar waith.</p>	<p>Bydd ansawdd a phrydlondeb rhannu gwybodaeth ar draws ffiniau asiantaethau yn gwella.</p>

4 Arweinyddiaeth Gref, Dylanwad a Her: Darparu arweinyddiaeth strategol bendant a her effeithiol ar draws y bartneriaeth a dylanwadu ar yr agenda genedlaethol mewn perthynas â blaenoriaethau diogelu canolbarth a gorllewin Cymru

Maes Blaenoriaeth	Beth rydym am ei gyflawni?	Beth fydd y dangosyddion canlyniadau?
4.1 Gwasanaethau Ymateb i Gam-drin Rhywiol ar gyfer Plant yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru	Cydwethio â phartneriaid iechyd i sefydlu patrwm o ddarparu gwasanaethau sy'n ateb anghenion dioddefwyr ymosodiadau a cham-drin rhywiol yng nghanolbarth a gorllewin Cymru.	Bydd yr amseroedd ymateb o ran archwiliadau meddygol ffforensig i blant sydd wedi dioddef ymosodiadau a cham-drin rhywiol yn gwella. Bydd y pellter y mae plant sydd wedi dioddef ymosodiadau a cham-drin rhywiol yn gorfod ei deithio yn lleihau.
4.2 Plant sy'n Derbynn Addysg Ddewisol yn y Cartref	Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol i ddatblygu deddfwriaeth gryfach a phrotocol cenedlaethol i ddiogelu plant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref.	Mae'r bwrdd yn parhau i ddylanwadu'n uniongyrchol ar yr agenda strategol genedlaethol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref. Mae plant yng Nghymru sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref yn cael eu diogelu'n well.
4.3 Gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer Staff sy'n Gweithio gyda Phlant ac Oedolion.	Canllawiau cliriach gan Lywodraeth Cymru ynghylch y gofynion bod staff sy'n dod i gysylltiad â phlant ac oedolion sy'n wynebu risg yn cael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.	Mae arferion recriwtio staff mewn swyddi allweddol yn fwy diogel.
4.4 Cydnabod Ymarfer Ardderchog.	Datblygu seremoni wobrwyo flynyddol ar gyfer staff amlasiantaeth sy'n nodi ac yn cydnabod cyflawniad ac arferion diogelu ardderchog.	Bydd cydnabod a gwobrwyo cyflawniad a safonau uchel yn gwella morâl y staff. Datblygir llwyfan ar gyfer rhannu ymarfer proffesiynol ardderchog ar draws y bartneriaeth amlasiantaeth.

4.5 Arwyddion Diogelwch.	Sefydlu grŵp rhanbarthol i ddarparu cymorth cymheiriaid ac adnoddau a rennir er mwyn parhau i ddatblygu Arwyddion Diogelwch a'u rhoi ar waith.	
4.6 Gweithdrefnau Diogelu Cenedlaethol ar gyfer Plant ac Oedolion sy'n Wynebu Risg.	Sicrhau bod y gweithdrefnau'n cael eu lansio yn unol â'r amserlen genedlaethol y cytunwyd arni yn Hydref 2019.	Mae ymarferwyr yn dod yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldebau proffesiynol dros blant ac oedolion sy'n wynebu risg a sut y bydd y rhain yn cyd-fynd â'r ddeddfwriaeth a amlinellwyd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014.

GWARIANT ARFAETHEDIG Y BWRDD ER MWYN CYFLAWNI EIN HAMCANION

Awdurdodau Lleol: <ul style="list-style-type: none"> • Ceredigion 15% • Powys 25% • Sir Gaerfyrddin 35% • Sir Benfro 25% 	60%	Iechyd: <ul style="list-style-type: none"> • BIP Hywel Dda 75% • BI Addysgu Powys 25% 	25%	Cyfanswm: 100%
Yr Heddlu	10%	Y Gwasanaeth Prawf: <ul style="list-style-type: none"> • Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol 2.5% • Cwmni Adsefydlu Cymunedol 2.5% 	5%	

Cyllideb Arfaethedig 2018-19		Cyfraniadau Arfaethedig yr Asiantaethau 2018-19	
Costau a Chyflogau'r Staff	99,800	Cyngor Sir Ceredigion	11,280
		Cyngor Sir Powys	18,740
Cyfarpar a meddalwedd TG	1,000	Cyngor Sir Caerfyrddin	26,180
Costau swyddfa, gweinyddu a recriwtio	7,450	Cyngor Sir Penfro	18,740
Teithio, manau cynnal a chyfathrebu	5,100	Heddlu Dyfed-Powys	12,490
Cyhoeddusrwydd, hyrwyddo a chyfieithu	1,500	Gwasanaeth Prawf Cymru	3,125
Comisiynu ymchwil, prosiectau a gomisiynir yn annibynnol a hyfforddiant rhanbarthol pwrpasol gan ddarparwyr allanol	10,000	Gwasanaeth Adsefydlu Cymunedol	3,125
		Bwrdd Iechyd Hywel Dda	23,380
		Bwrdd Iechyd Addysgu Powys	7,790
		Iechyd Cyhoeddus Cymru	0
CYFANSWM	124,850	CYFANSWM	124,850

EIN BWRIAD I GYDWEITHIO Â PHOBL NEU GYRFF ERAILL.

Bydd Bwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru yn parhau i gydweithio a gweithio mewn partneriaeth â'r holl fyrddau diogelu eraill yng Nghymru trwy fynd i gyfarfodydd rheolaidd y Rheolwyr Busnes a'r Cydlynwyr Busnes a hwylusir gan Lywodraeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys rhannu gwybodaeth ac arferion da yn rheolaidd o ran adolygiadau ymarfer, cydlynu themâu a negeseuon yr Wythnos Genedlaethol Diogelu ar lefel genedlaethol; a digwyddiadau eraill pwrpasol/neilltuol a drefnir yn allanol.

Mae'r bwrdd yn edrych ymlaen at benodiadau'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol newydd sydd ar y gweill ac mae wedi ymrwymo i barhau i gydweithio â nhw ar faterion pwysig o'r ddwy ochr. Mae'r gwaith parhaus ynghylch plant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref wedi bod yn arbennig

o effeithiol ac mae'r bwrdd yn edrych ymlaen at glustnodi cyfleoedd yn y dyfodol a fydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr fel y gallwn weithio gyda'n gilydd i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant ac oedolion sy'n wynebu risg yng nghanolbarth a gorllewin Cymru.

Bydd y bwrdd yn parhau i gydgyssylltu â Llywodraeth Cymru a gweithio gyda nhw ar faterion o bwys cenedlaethol a bydd yn parhau i ymgysylltu â'r dasg o aillysgrifennu'r gweithdrefnau diogelu cenedlaethol y comisiynwyd Bwrdd Diogelu Caerdydd a'r Fro i'w chyflawni.

Rydym wedi ymrwmo i gyflawni rhywfaint o waith cydweithredol â Bwrdd Partneriaeth Canolbarth a Gorllewin Cymru yn y flwyddyn sy'n dod ynghylch datblygu'r gweithlu ac ymgysylltu â'r dinesydd, sy'n waith y teimlwn ei fod yn adlewyrchu esblygiad parhaus ac aeddfedrwydd y bwrdd.

Y CYFLEOEDD CYFRANOGI A DDARPARWN I'R BOBL Y MAE GWAITH Y BWRDD YN EFFEITHIO ARNYNT

Y llynedd, gwnaed cynnydd da i ymgysylltu'n well ag oedolion sy'n wynebu risg. Adlewyrchir y cynnydd hwn yn yr adroddiad blynyddol a gaiff ei gyhoeddi yng Ngorffennaf 2019 a bydd hwn yn parhau i fod yn ffocws allweddol i fwrdd CWMPAS. Darperir nifer o brosiectau cyffrous o dan y ffrydiau gwaith hyn a fydd â'r nod o annog ymgysylltu ystyrion â gwaith y bwrdd gydag oedolion sy'n wynebu risg, gan gynnwys goroeswyr cam-drin domestig.

Derbyniodd Gwasanaeth Eiriolaeth Annibynnol TGP gomisiwn gan Fwrdd CYSUR i hwyluso Bwrdd Rhanbarthol Diogelu Iau CADW. Mae'i aelodaeth yn cynnwys plant a phobl ifanc o bob rhan o'r pedair sir. Mae'r grŵp yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn, gan gynnwys digwyddiad preswyl blynyddol. Yn y flwyddyn sy'n dod, bydd y grŵp yn parhau i ddarparu cyngor a gwybodaeth i'r Bwrdd Gweithredol am amrywiaeth o faterion diogelu sy'n bwysig ac yn berthnasol i bobl ifanc.

Yn ogystal â Bwrdd Rhanbarthol CADW, mae gan bob un o'r pedair sir, sef Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Phowys, eu trefniadau a'u Grwpiau Diogelu Iau Lleol eu hunain. Mae'r rhain yn cyd-fynd yn agos â thri o'r pedwar Grŵp Gweithredol Lleol y bydd aelodau iau yn mynd i'w cyfarfodydd ac yn rhoi gwybodaeth iddynt am faterion diogelu lleol sy'n effeithio ar bobl ifanc. Bydd y trefniadau hyn yn parhau yn y flwyddyn sy'n dod gan fod y bwrdd yn sylweddoli bod angen gwneud rhagor o waith i sicrhau ymgysylltu ystyrion a gwirioneddol â phlant a phobl ifanc a sicrhau bod y ffrydiau gwaith yn cyd-fynd â blaenoriaethau strategol y bwrdd.

I gael rhagor o wybodaeth am Fwrdd Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru, ewch i'n gwefan:

www.cysur.cymru neu www.cwmpas.cymru

RHOI GWYBOD AM BRYDER

Os byddwch yn amau bod plentyn, person ifanc neu oedolyn yn wynebu **risk enbyd o niwed, ffoniwch 999** i siarad â'r Heddlu.

Os hoffech roi gwybod am ddigwyddiad **nad yw'n achos brys** neu os bydd gennych broblem neu ymholiad cyffredinol, gallwch ffonio **101**, sef llinell ddifrys 24 awr yr Heddlu.

Os byddwch yn pryderu am ddiogelwch neu les plentyn, mae gennych ddyletswydd i roi gwybod amdano ar unwaith - trwy gysylltu â'r canlynol:

SIR GAERFYRDDIN:

Yn ystod oriau'r swyddfa:

Y Tîm Atgyfeirio Canolog – Rhif ffôn: 01554 742322

E-bost: CRTChildren@carmarthenshire.gov.uk

Y tu allan i oriau'r swyddfa: Rhif ffôn: 0300 333 2222

CEREDIGION:

Yn ystod oriau'r swyddfa: Y Ganolfan Gyswilt - Rhif ffôn: 01545 574000, Rhif ffacs: 01545 574002

E-bost: contact-socservs@ceredigion.gov.uk

Y tu allan i oriau'r swyddfa: Y Tîm Dyletswydd Brys - Rhif ffôn: 0300 456 3554

Sir Benfro:

Yn ystod oriau'r swyddfa: Y Tîm Asesu - Rhif ffôn: 01437 776444

E-bost: ccat@pembrokeshire.gov.uk

Y tu allan i oriau'r swyddfa: Y Tîm Dyletswydd Brys - Rhif ffôn: 0300 333 2222

POWYS:

Llinell Uniongyrchol Powys:

Rhif ffôn: 01597 827666

E-bost: people.direct.children@powys.gov.uk

Os byddwch yn pryderu am ddiogelwch neu les oedolyn, mae gennych ddyletswydd i roi gwybod amdano ar unwaith - trwy gysylltu â'r canlynol:

SIR GAERFYRDDIN:

Y Gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth drwy ffonio 0300 333 2222 neu atgyfeirio trwy ein gwefan www.sirgar.llyw.cymru

E-bost: adultsafeguarding@carmarthenshire.gov.uk

CEREDIGION:

Yn ystod oriau'r swyddfa: Y Ganolfan Gyswilt - Rhif ffôn: 01545 574000, Rhif ffacs: 01545 574002

E-bost: contact-socservs@ceredigion.gov.uk

Y tu allan i oriau'r swyddfa: Y Tîm Dyletswydd Brys - Rhif ffôn: 0300 456 3554

Sir Benfro:

Yn ystod oriau'r swyddfa: Y Tîm Dyletswydd - Rhif ffôn: 01437 776056

E-bost: adult.protection.team@pembrokeshire.gov.uk

Y tu allan i oriau'r swyddfa: Y Tîm Dyletswydd Brys - Rhif ffôn: 0300 333 2222

POWYS:

Llinell Uniongyrchol Powys:

Rhif ffôn: 01597 827666

E-bost: people.direct.adult@powys.gov.uk